

The Wrexham (Gas Fired Power Station) Order

5.1 Consultation Report

Planning Act 2008 The Infrastructure Planning
(Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009

PINS Reference Number: EN010055
Document Reference Number: 5.1
Regulation Number: 5(2) (o)
Lead Author: Local Dialogue

Revision:	Date:	Description:
0	March 2016	Submission version

1. Crynodeb Adroddiad Ymgynghori

1.1. Cyflwyniad

- 1.1.1. Disgrifia'r crynodeb hwn yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan Wrexham Power Limited (WPL) ynghylch ei gynigion ar gyfer ar gyfer Canolfan Ynni Wrecsam (WEC), canlyniadau'r ddau gyfnod ymgynghori a'r newidiadau a wnaed i ddyluniad WEC. Adroddiad Ymgynghori WPL (Cyfeirnod Dogfen5.1) acmae ei atodiadau ategol yn ymhelaethu ar y pwyntiau a wneir yn y crynodeb hwn.
- 1.1.2. Yn y tabl isod ceir crynodeb o'r gweithgarwch allweddol a wnaed gan WPL yn rhan o-r ymgynghori anstatudol a statudol. Ymhelaethir yn llawn ar hyn yn Adroddiad Ymgynghori WPL (cyfeirnod dogfen 5.1).

Tabl 1: Crynodeb cronolegol o weithgarwch WPL

Tabl 1: Cronoleg y gweithgarwch ymgynghori a gynhaliwyd hyd yn hyn	
Dyddiad(au)	Gweithgarwch
Mai 2012	Cynllun ymgynghori anstatudol y cyunwyd arno gyda CBSW
11 Mehefin – 5 Awst 2012	Yr ymgynghori anstatudol a gynhaliwyd
23 Mawrth 2016	Rhyddhau SoCC i'r Arolygiaeth Gynllunio
8 Ebrill 2014	Datganiad drafft Ymgynghori Cymunedol (SoCC) iwedi ei anfon i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW)
6 Mai 2014	Yr ymgynghori ar y SoCC drafft wedi ei gwblhau
4 Gorffennaf 2014	Hysbysiad Adran 48 wedi ei gyhoeddi yn y London Gazette
5 Gorffennaf 2014	Hysbysiad Adran 48 wedi ei gyhoeddi yn y Telegraph
5 Gorffennaf 2014 a 12 Gorffennaf 2014	Cyhoeddi hysbysiad Adran 48 yn lleol (ddwywaith) iyn y Wrexham Leader
5 Gorffennaf 2014	Cyhoeddi hysbysiad SoCC yn lleol a threfnu bod copiâu caled ar gael mewn lleoliadau arolygu
10 Gorffennaf 2014	Anfionwyd posteri yn hysbysebu'r ymgynghori statudol i sefydliadau cymunedol
11 Gorffennaf 2014	Diweddarwyd gwefan y prosiect a'i hail-lansio gyda PEIR a gwybodaeth ymgynghori ategol
11 Gorffennaf 2014	Ysgrifennwyd at ymgynghoreion Adran 42 a rhoddwyd rhybudd iddynt am yr ymgynghori, gan lansio ymgynghori statudol

11 Gorffennaf 2014	Ysgrifennwyd at ymgynghoreion Adran 47 a rhoddwyd rhybudd iddynt am yr ymgynghori, gan lansio ymgynghori statudol
14 Gorffennaf 2014	Yr ymgynghori statudol yn dechrau'n ffurfiol
21 Gorffennaf 2014	Rhoi cyflwyniad i Gyngor Cymunedol Bangor-is-y-Coed
21 Gorffennaf 2014, 22 Gorffennaf 2014 a 23 Gorffennaf 2014	Cynhaliwyd digwyddiadau arddangos ymgynghori adran 47
24 Awst 2014	Ymgynghoriad statudol wedi ei gwblhau
20 Ionawr 2016	Diweddarwyd taflen a anfonwyd i'r gymuned a'r rhanddeiliaid sy'n esbonio y cyflwynir cais cynllunio i CBSW ar gyfer y Cyswllt Nwy.

1.2. **WPL a WEC**

- 1.2.1. Menter ar y cyd yw WPL rhwng St Modwen a Glenfinnan Properties, a sefydlwyd gyda'r bwriad o hyrwyddo WEC.
- 1.2.2. Mae WEC yn Orsaf Ynni Tyrbinau Nwy Cylch Cyfun (CCGT) gyda chapasiti o hyd at 299MWe (megawatt trydan) ac mae cynigion WPL' yn cynnwys Cyswllt Nwy WEC. Lleolir WEC ar Ystâd Ddiwydiannol Wreccsam (WIE) sydd, o ran tir, yn un o'r ystadau diwydiannol mwyaf yn Ewrop. Yr enw a ddewisir i WEC yw Kingmoor Park South, ar ymyl ogledd-ddwyreiniol WIE yn Bryn Lane. Mae gan y safle hwn ganiatâd cynllunio ar gyfer warws bae uchel ac adeilad swyddfa o faint cyfanswm 47,534 m².

1.3. **Ymgynghoriad anstatudol WPL**

- 1.3.1. Cyn cynnal ymgynghori statudol yn unol â PA 2008, cynhaliodd WPL ymgynghoriad anstatudol i gyflwyno'r cynigio i randdeiliaid cymunedol.
- 1.3.2. Yn dilyn trafodaethau cychwynnol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam (CBSW) tua diwedd 2010. Datblygodd WPL y cysyniad ar gyfer y WEC, ac fe'i cyflwynwyd i'r gymuned leol a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn ystod ymgynghoriad anstatudol.
- 1.3.3. Cynhaliwyd ymgynghori anstatudol rhwng 11 Mehefin 2012 a 5 Awst 2012, iyn unol â Chynllun Ymgynghori a luniwyd ac y cytunwyd arno â CBSW.

- 1.3.4. Yn dilyn yr ymgynghori anstatudol hwn, ar 30 Tachwedd 2012 cyflwynodd WPL adroddiad cwmpasu EIA (yr "Adroddiad Cwmpasu Blaenorol") i'r Ysgrifennydd Gwladol ("YG"). Roedd yr Adroddiad Cwmpasu Blaenorol yn ymwneud â'r effeithiau amgylcheddol tebgol allai godi o ganlyniad i'r Cynllun Blawnorol. Amlinellodd yr Adroddiad Cwmpasu Blaenorol ddull arfaethedig o gynnal yr EIA a darparu amlonelliad arfaethediig yr EIA a chynnwys yr ES. Roedd hyn yn cynnwys y materion yr ystyriai WPL y dylid eu hasesu yn rhan o'r EIA a'r effeithiau hynny nad oedd yn gofyn am asesu; mewn geiriau eraill, y rheini y gellid eu 'cwmpasu allan'. Cyhoeddwyd Barn Gwmpasu (y "Farn Gwmpasu Flaenorol") gan yr YG ym mis Ionawr 2013 a hwn yw Atodiad 5.1 i ES (Cyfeirnod Dogfen: 6.1-6.4) (atodir y ddogfen hon at ddibeinion cyfeirio yn unig, gan mai'r Farn Gwmpasu berthnasol ar gyfer y Cynllun yw un Mai 2014 (gweler isod)).
- 1.3.5. Am y rhesymau a esboniwyd ym Mhennod 3 ES, rhoddodd WPL wedyn y Cynllun Blaenorol o'r neilltu yn dilyn adborth ymgynghori gan wahanol ymgynghoreion statudol a'r gymuned leol. Ystyriodd WPL y byddai'r Cynllun prsenol yn arwain at wahanol effeithiau amgylcheddol o'u cymharu â'r Cynllun Blaenorol ac, o ganlyniad, rhoddodd WPL yr Adroddiad Cwmpasu Blaenorol a'r Farn Gwmpasu Flaenorol o'r neilltu a chyflwyno cais cwmpasu ar 19 Mawrth 2014 ynghylch y Cynllun (y 'Cais Cwmpasu') i'r YG. Cyhoeddwyd Barn Gwmpasu ynghylch y Cynllun (y "Farn Gwmpasu") gan yr YG ar 12 Mai 2014, gan gymryd i ystyriaeth y stlwadau a ddaeth i law gan gyrrff statudol ac ymgynghoreion eraill.
- 1.3.6. Mae'r Adroddid Ymgynghori hwn yn parhau i adrodd ar yr adborth a ddaeth i law ynn ystod ymgynghori anstatudol 2012, ac yn ystyried yr adborth hwn. er mwyn bod gan yr Arolygiaeth Gynllunio a'r Ysgrifennydd Gwladol gofnod o'r un peth. Yn ystod ymgynghori anstatudol cyflwynodd WPL gynigion ar gyfer WEC gyda chapasiti cynhrchu o hyd at 1,200 MWe, wedi ei leoli ar WIE. Cyflwynodd WPL hefyd gynlluniau sy'n dangos y coridorau lle gellid darparu cyswllt 400 cilofolt (kv) WEC ar y pryd i'r system trosglwyddo trydan genedlaethol, a choridor lle gellid darparu'r Cyswllt Nwy â'r system drosglwyddo genedlaethol. Rhoddodd WPL hefyd fanyliom dewis safle Kingmoor Park South a safleoedd eraill a gafodd eu hystyried a'u gwrthod, yn enwedig hen safle ffatri Firestone a Kingmoor Park North. Cafodd yr ymgynghoreion hefyd gyfle i gynnig safleoedd eraill.
- 1.3.7. Yn ystod yr ymgynghori anstatudol, ymwelodd 134 o unigolion â digwyddiadau'r arddangosfa. Ymwelwyd 1,467 o weithiau â gwefan y prosiect website (www.Wrexham-Power.com), dychwelwyd 60 ffrflen adborth i dîm WPL, daeth 42 o e-byst i law, logiwyd 19 galwad ffôn a oedd yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad a chynhaliwyd cyfarfodydd ag unigolion allweddol, cynghorau cymuned a sefydliadau.
- 1.3.8. Darperir adroddiad Ymgynghoriad Anstatudol WPL (Adrioddiad Adborth Cyfnod Un) yn Atodiad 1 Adroddiad Ymgynghori WPL (cyfeirnod dogfen 5.1) gan esbonio sut y cynhaliwyd yr ymgynghori gan ddarparu'r ymatebion a ddaeth i

law ynghyd ag ymateb WPL. I grynhoi, awgrymodd yr ymgynghoriad anstatudolt:

- i. Fod rhaid ystyried effeithiau gweledol ac amgylcheddol WEC yn ofalus yn nyluniad ac asesiad amgylcheddol y prosiect.
- ii. Roedd yn well gan rai ymgynghoreion safleoedd posibl eraill ar gyfer WEC, yn bennaf hen safle ffatri Firestone. Daeth y dewis hwn yn enwedig o bentrefi Is-y-coed a Holt a'r ardaloedd oddi amgylch.
- iii. Gan y rheini a fynegai ddymuniad, roedd dymuniad clir am wneud Cyswllt Trydan oddi mewn i'r Coridor Deheuol (un o'r ddau opsiwn arfaethedig).
- iv. Roedd angen ystyried effeithiau gweledol ac amgylcheddol y Cyswllt Trydan arfaethedig yn ofalus yn nyluniad ac asesiad amgylcheddol y prosiect.
- v. Roedd rhywfaint o ffafriaeth i Gyswllt Nwy i'w wneud yn y Coridor Dwyreiniol (un o'r ddau opsiwn arfaethedig).
- vi. Roedd llai o ddiddordeb yn elfen Cyswllt Nwy y cynigion na WEC hithau a'i Chyswllt Trydan;
- vii. Cydnabuwyd manteision cyflenwad masnachol ac ynni WEC gan fusnesau ar Ystâd Ddiwydiannol Wreccsam ac yn ehangach.

1.3.9. Rhwng yr ymgynghoriadau anstatudol a statudol, parhaodd WPL i gael adborth gan y gymuned sy'n byw yng nghyffiniau ycoridoriau Cyswllt Trydan arfaethedig cychwynnol WEC, yn enwedig y rheini a oedd yn byw yn y coridor deheuol. Gwrthwynebodd yr adborth hwn yn bendant 400kV Gyswllt Trydan arfaethedig WEC a'r posibilrwydd y codid peilonau.

1.3.10. Fel y nodwyd uchod, adolygodd WPL yr adborth a ddaeth i law ar y cyd â'r dyluniad a'r asesiadau technegol a phenderfynwyd cyflwyno'r Cynllun presennol. Mae gan y Cynllun gapasiti cynhyrchu o hyd at 299MWe. Gellir cysylltu'r orsaf ynni tyrbinau cylch nwy cyfun hon, yn dibynnu ar bifer o ddiweddariadau, â rhwydwaith dosbarthu trydan presennol SPEN. O'r herwydd, y prif negeseuon y rhoddodd WPL sylw iddynt oedd y ceisiadau i leihau maint a graddfa'r Orsaf Ynni ei hun, a phe bai'n bosibl, dileu'r angen am gyswllt newydd 400kV a defnyddio'r system dosbarthu trydan leol brsennol.

1.4. **Datganiad Ymgynghori Cymunedol WPL¹**

¹ Ceir y Datganiad yn Atodiad 11 Adroddiad Ymgynghori WPL (cyfeirnod dogfen 5.1), lle ceir Rhan 1 (y Datganiad ei hun - a labelir hefyd yn "Adroddiad i Lunio'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol a luniwyd yn unol â s47(6) o Ddeddf Gynllunio 2008") a Rhan 2 (yr hysbysiad SoCC – y nodwyd iddo gaeleu gyhoeddi yn Atodiad 13 Adroddiad Ymgynghori WPL cyfeirnod dogfen 5.1)).

- 1.4.1. Cyn dechrau ar ymgynghori statudol, drafftiodd WPL Ddatganiad Ymgynghori Cymunedol (SoCC), gan ymgynghori arn a'i gyhoeddi yn unol ag adran 47 PA 2008.
- 1.4.2. Ymgynghorodd WPL â CBSW ar gynnwys y SoCC rhwng 8 Ebrill 2014 a 6 Mai 2014 a chyhoeddodd ei hysbysiad SoCC ar 5 a 7 Gorffennaf 2014 yn ogystal â threfnu bpd copïau caled ar gael mewn manau arolygu sy'n lleol i safle arfaethedig WEC Gweler Atodiad 13). Nodir y sylwadau a ddarparwyd gan CBSW a sut aeth WPL i'r afael â hwy ym mhennod 10 Ymgynghori Statudol: Ymgynghoriad yn unol ag adran 47 of the PA 2008.
- 1.5. **Ymgynghoriad statudol WPL**
 - 1.5.1. Cynhaliodd WPL ymgynghoriad statudol yn unol ag adannau 42, 47 a 48 o PA 2008 ynghylch ei gynigion ar gyfer WEC.
 - 1.5.2. Mae Safle Cyfadeilad yr Orsaf Ynni yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) gan fod ganddo gapasiti cynhyrchu arfaethedig o fwy na 50MWe Yn unol â PA 2008, mae gofyn i WPL wneud cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) gan yr Ysgrifennydd Gwladol drios Ynni a'r Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS) wedi cael y cylch gorchwyl o astudio, ar ran yr Ysgrifennydd Gwkladol, geisiadau ar gyfer NSIP. Yn unol â hyn, mae WPL wedi cofrestru'r project gyda'r Arolygiaeth Gynllunio. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn penodi'r Awdurdod Arholi a fydd yn astudio ac astudio'r Cais a gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwkladol. Eglurir y broses hon, gan gynnwys y modd y dylid cynnal ymgynghoriad yn PA 2008.
 - 1.5.3. Cyn cyflwyno cais, mae'n ddyletswydd statudol ar ymgeiswyr i ymgynghori ar y cais arfaethedig a'i hysbysu yn unol â PA 2008, a'r rheoliadau a wnaed oddi tano. Rhaid i ymgeiswyr hefyd ystyried unrhyw ganllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 50 o'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys *Deddf Gynllunio 2008: Arweiniad ar y broses cyn gwneud caiss* (Awst 2014) a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.
 - 1.5.4. Cynhaliwyd ymgynghori statudol rhwng 14 Gorffennaf 2014 a 24 Awst 2014.
 - 1.5.5. Ysgrifennwyd at yr holl gyrff, sefydliadau ac unigolion hynny a gategoreiddiwyd yn ymgynghoreion o dan adrannau 42 (a), (b) a (d) o PA 2008 adeg lansio'r ymgynghori gan roi iddynt fanylion y cynigion. gan gynnwys Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) gyda Chrynodeb Anhechnegol (yn Gymraeg a Saesneg) a chynlluniau a dogfennau ategol sy'n dangos y dyluniad safle sydd orau gan bobl ar gyfer WEC a'r Cyfyngiad Gorchymyn Caniatâd Datblygu arfaethedig - sef ffin ddrsaft safle'r cais. Darparwyd copi o'r PEIR ar CD ynghyd â chopïau o'r holl ddeunydd ymgynghori. Draftiwyd y deunyddiau hyn a'u cyhoeddi i sicrhau bod modd i ymgynghoreion roi adborth gwybodus ar gynigion WPL ar gyfer WEC.
 - 1.5.6. Hysbysebodd WPL y Cais arfaethedig trwy gyhoeddi hysbysiadau ar y ffurf osododedig yn unol ag adran 48 o PA 2008. Cyhoeddwyd yr hysbysiadau canlynol:

- 4 Gorffennaf 2014 - London Gazette (cofnod cyhoeddus)
- 5 Gorffennaf 2014 - Wrexham Leader (cylchrediad 30,266) a'r Daily Telegraph (cylchrediad 523,048)
- 12 Gorffennaf 2014 - Wrexham Leader (cylchrediad 30,266)

Nodwyd yr hysbysiadau ad 48 fel yr ymddangosasant yn y Wrexham Leader (y ddau ddyddiad) a'r Daily Telegraph a'r London Gazette yn Atodiad 28.

- 1.5.7. Ymgynghorwyd â'r gymuned sy'n byw yng mghyffiniau'r tir lle cynigir codi WEC yn unol ag adran 47 o PA 2008. Cynhaliwyd yr ymgynghori statudol hwn yn unol ag SoCC WPL, dogfen a luniwyd yn unol ag Adran 47 (1) o PA 2008. Yn ôl y gofyn, ymgynghorodd WPL â CGSW ar gynnwys yr SoCC ac mae wedi ystyried i'w hymatebion.
- 1.5.8. Hyrwyddwyd yr ymgynghori statudol trwy'r post Dosbarth Cyntaf trwy'r Post Brenhinol o daflen gwybodaeth prosiect i 2,771 o gyfeiriadau yng nghyffiniau safle WEC, gan hysbysebu yn y cyfryngau lleol, cyhoeddi datganiadau i'r wasg, dosbarthu posteri a llythyrau i randdeiliaid a gofrstrodd ddiddordeb yn y prosiect adeg cyfnod gwirfoddol ansyatudol yr ymgynghori. Ategwyd yr ymgynghoriad gan wefan a oedd y ffynhonell gwybodaeth fwyaf cyfredol am y prosiect, tri digwyddiad arddangosgfa gyhoeddus, cyflwyniad i Gyngor Cymuned Bangor-is-y-Coed, ynghyd â deunyddiau aolygu copi caled.
- 1.5.9. Rhoddwyd manylion cyswllt WPL i bob ymgynghorai er mwyn sicrhau y gallent gysylltu â thîm y prosiect ar ffyrdd y gellid cyflwyno adborth trwyddynt. Roedd y rhain yn cynnwys *cyfeiriad* Rhadbost, cyfeiriad e-bost, papur a ffurflenni adborthn adborth ar-lein a rhif ffôn prosiect, wedi ei staffio o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9:00am a 5:30pm, gyda pheiriant ateb y tu allan i'r oriau hyn.
- 1.5.10. Disgrifir a dadansoddir yr adborth a ddaw i law yn Adroddiad Ymgynghori WPL (cyfeirnod dogfen 5.1). Cynhwysa hyn ymatebion gan bedwar o ymgynghoreion adran 42, ar ffurf llythyrau ac arweiniad ysgrifenedig, ac ymgynghoreion adran 47 (y gymuned) a roddwyd ar deaws 20 ffurflen adborth, 17 llythyr, 41 e-bost a 10 galwad ffôn a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.
- 1.5.11. I grynhoi, amgrymodd yr ymwneud ag ymgynghoreion adran 47:
- Mewn trafodaeth â rhanddeiliaid croesawyd y penderfyniad i fwrw ymlaen gyda gorsaf ynni 299MWe yn hytrach nag un 1,200MWe;
 - Mewn trafodaeth â rhanddeiliaid, croesawyd y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â chysylltiad 400kV;
 - O ganlyniad i sylw a gyflwynyd gan SPEN i ymgynghoriad yr Arolygiaeth Gynllunio ar Adriddiad Cwmpasu EIA WPL (Mawrth 2014 (cyfeirnod dogfen 6.4.1)), nad oedd yn adlewyrchu'r cyfarfodydd a'r trafodaethau a arweiniodd at astudiaeth dichonolrwydd yn cadarnhau y gellir gwneud

cysylltiad â'r rhwydwaith dosbarthu trydan lleol, roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu mai cysylltiad uniongyrchol 400kV â'r system trosglwyddo trydan genedlaethol i Isorsaf Etifeddiaeth y Grid Cenedlaethol fyddai'r unig ffordd ddichonadwy o allforio'r trydan a gynhyrchid gan WEC. Cadarnha WPL nad felly y bydd hi ac mae wedi cyflwyno'r cais cyswllt priodol.

iv. Roedd y sylwadau mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- Nad oes angen gorsaf ynni ar ardal Wreccsam gan fod gorsafoedd ynni eraill yn bodoli yn yr ardal ehangach That the Wrexham area does not require a power station as there are other existing power stations in the wider region (31 sylw)
- Bydd WEC yn creu swm clywadwy oan fydd yn gweithredu (29 sylw)
- Bydd WEC yn effeithio ar ansawdd awyr yn lleol (28 sylw)

1.5.12. Ymhelaetha Adroddiad Ymgynghori WPL (cyfeirnod dogfen 5.1) a'i atodiadau ar yr adborth a ddaeth i law.

1.5.13. Mae'r marerion a godwyd gan ymgynghoreion 42 yn benodol i'w diddordeb neu eu rôl reoleiddiol ac ymdrinnir â'r rhain yn unigol yn Adroddiad Ymgynghori WPL (cyfeirnod dogfen 5.1).

1.5.14. I grynhoi, mae WPL wedi cymryd i ystyriaeth yr adborth a ddaeth i law, ar y cyd ag ystyriaethau dylunio a thechnegol eraill er mwyn llywio'r canlynol. Gan ddefnyddio'r adborth a roddwyd yn ystod yr ymgynghori statudol, mae WPL,:

- Wedi terfynu ei ddewis gynllun ar gyfer safle WEC
- Wedi daroaru ar gyfer sgrinio gweledol gan gynnwys plannu
- Wedi penderfynu'n derfynol ar lwybr y Cyswllt Nwy
- Wedi penderfynu'n derfynol ar leoliad a chyfeiriad Safle Uwchben y Tir y Cyswllt Nwy yng Ngwaith Nwy Maelor
- Wedi penderfynu'n derfynol ar drefniadau mynediad ar gyfer adeiladu a phan fydd yn gweithredu

1.5.15. Rhoddir manylion sut yr aeth WPL ati i gynnal ymgynghoriad statudol, yr ymatebion a ddaeth i law, a'r newidiadau yn y prosiect yn sgilhyunny yn Adroddiad Ymgynghori WPL (cyfeirnod dogfen 5.1).

1.5.16. Yn dilyn eglurhad ar yr hyn sy'n ddatblygiad cysylltiedig yng Nghymru, ym mis Ionawr rhoddodd WPL wybod i randdeiliaid a oedd yn byw y ei barth ymgynghori y byddai'n cyflwyno cais cynllunio ar r gyfer Cyswllt Nwy WEC i Gyngor Bwreistref Sirol Wreccsam. Ceir nodyn ar yr ymwneyd hwn yn Atodiad 32 Adroddiad Ymgynghori WPL (cyfeirnod dogfen 5.1). A note on this engagement is provided in Appendix 32 of WPL's Consultation Report (Document Reference 5.1).

DIWEDD